

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor gynhaliwyd nos Iau, 2ail o Fai, 2019 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans; Aled Davies; Tegid Jones; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones; Gareth O Davies; Darren Morley a'r Clerc. Croesawyd dau aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau:

Y Cyngorwyr Trefor Wyn Jones; Sion Aled Jones; Naomi Jones; Angela Williams: Ceri Jones

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod blynyddol 3ydd o Fai, 2018.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ni godwyd dim byd o'r cofnodion.
4. Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af Ebrill 2018 i 31ain o Fawrth, 2019 gan y Cadeirydd.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod sawl newid wedi bod yn ystod y flwyddyn, sef fod y Cynghorydd Marian Evans wedi gadael, a'r cyn Clerc Mr Richard Roberts ar ol blynyddoedd o wasanaeth, a datganwyd gwerthfawrogiad iddynt am ei gwaith caled. Croesawyd y Clerc newydd a dywedwyd ei bod yn fantais ei bod yn byw yn y gymuned a bod ganddi wybodaeth eang am faterion lleol. Cafwyd Cynghorydd newydd yn Llanystumdwy hefyd, sef Mr Darren Morley.

Soniwyd am waith arferol y Cyngor sef torri'r llwybrau yn y gymuned; torri cae chwarae Llanybi; cadw safle bedd David Lloyd George a chadw'r safleoedd bws yn y gymuned yn daclus. Cafwyd newyddion da o gael rhybudd 40 milltir yr awr y tu allan i bentref Chwilog, a llinellau melyn o flaen tai Glanywern Chwilog.

Diolchwyd i bawb am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.

5. Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill 2018 i 31ain o Fawrth, 2019 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Rhannwyd taflenni yn dangos crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 31ain, 2019 a chysoniad y banc am y flwyddyn, ac fe eglurodd y Clerc am y gwariant ac incwm yn fanwl ac yna bu cyfle i ofyn cwestiynau.

Fe rannwyd cyfanswm o £7353.20 yn gymunedol, £5650,00 ohono o'r cyfrif cyfredol, a £1703.20 o'r cyfrif Budd Cymunedol o'r arian fferm solar, gwnaed yn siwr fod halen yn y biniau halen, a cyfranwyd £2,000.00 tuag at gynnal toiled cyhoeddus

Llanystumdwy. Penderfynwyd fod angen talu am roi WiFi yn y dair ganolfan yn y gymuned sef Neuadd Llanystumdwy, Neuadd Goffa Chwilog a Festri Capel Pencaenewydd, ond heb dderbyn manylion gan Chwilog a Phencaenewydd yn ystod y flwyddyn.

Fe brynwyd gliniadur newydd i'r Clerc i hwyluso ei gwaith am £349.98.

Derbyniwyd £3857.70 gan Lightsource, a £417.80 am ad-daliad cynnal a chadw'r llwybrau gan Cyngor Gwynedd, a £271.55 yn nol dreth ar werth.

Penderfynwyd derbyn y cyfrifon am y flwyddyn ac arwyddwyd y cyfrifon a'r daflen grynoded gan y Cadeirydd a'r Clerc. Yn awr gellir mynd ymlaen gyda'r archwiliad ariannol mewnol. Diolchwyd i'r Clerc.

6. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau. Holwyd am gael bin baw cwn yn Llanystumdwy ger Maes Carafannau Tyddyn Sianel. Trafodwyd y mater, ac fe ofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r maes carafannau i holi os oedd ganddyn nhw 'bin' baw cwn. Yna gofynwyd i Gynghorwyr Llanystumdwy fynd i edrych ar y safle a rhoi ei sylwadau ger bron yn ein cyfarfod nesaf.

7. Ethol swyddogion am y flwyddyn 1af Ebrill 2019 – 31ain o Fawrth 2020.

a) Cadeirydd; sef yr Is gadeirydd presennol, y Cynghorydd Anwen Jones.

b) Is gadeirydd; tro Ward Llanybi ydoedd ac yn ei habsenoldeb, penderfynwyd enwebu y Cynghorydd Angela Jones, a bod y Clerc yn cysylltu â hi.

c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Cytunodd y Clerc i barhau â'r swydd.

ch) Elusen William Ellis, Llanystumdwy, Cynghorwyr Ward Llanystumdwy. Cadarnhawyd mai Cynghorwyr Ward Llanystumdwy fyddai yn parhau i rannu'r arian yma.

8. Cadarnhau aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor – cadw'r enwau yr un fath ag o'r blaen, a bod y Cynghorydd Darren Morley ar y Pwyllgor Amodau Gwaith

9. Dewis cynrychiolydd i:-

Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru- enwebwyd Cynghorydd Trefor Jones yn ei absenoldeb

Grwp Mynediad Dwyfor – enwebwyd Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.